**CYMORTH TÎM GWEINYDDU A CHYFATHREBU DIGIDOL**
**SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLEB YR UNIGOLYN**

---

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Cymorth Tîm Gweinyddu a Chyfathrebu Digidol |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Prosiect Down to Zero |
| **Daliadaeth:** | Tymor penodol tan 31 Mawrth 2025 (estyniad posibl yn ddibynnol ar gyllid) |
| **Cyflog:** | £23,852 y flwyddyn |
| **Oriau**: | 35 awr yr wythnos |

## Pwy yw Down to Zero a Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf

Mae Down to Zero yn gymdeithas budd cymunedol ac yn is-gwmni i Gartrefi Cymunedol Cynon Taf. Mae Down to Zero yn canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau lleol i liniaru effaith yr hinsawdd, gan gynnig hyfforddiant, gwirfoddoli a gweithgareddau ar dir sy'n cynnwys tyfu bwyd, rheoli tir a gweithgareddau natur eraill.

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghalon Rhondda Cynon Taf yn ne Cymru odidog. Rydym yn falch o'n cymunedau a'n hanes wedi'i wreiddio'n ddwfn o ran darparu cartrefi a chefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt. Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion allweddol.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 2000 o gartrefi ar rent, gan gynnwys 4 cynllun cartrefi i bobl hŷn, dwy loches i fenywod a nifer o brosiectau tai â chymorth sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae ein his-gwmni hynod uchel ei barch, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Yn anad dim, sefydliad pobl ydym ni, sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau a chymorth gwych, bod yn gyflogwr da a bod yn bartner uchel ei barch yn ein rhanbarth ac ar draws Cymru.

## Prif Bwrpas y Rôl

Bydd y Cymorth Tîm Gweinyddu a Chyfathrebu Digidol yn gweithio'n rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a chymorth gweinyddol cynhwysfawr, o safon uchel, i dîm Down to Zero i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r ymatebolrwydd mwyaf i anghenion y Tîm.

Bydd y dyletswyddau'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau cymorth ar gyfer swyddogaethau Down to Zero, o gydlynu cyfarfodydd i ddiweddaru a chynnal gwybodaeth fonitro a chronfeydd data, creu cynnwys i'r cyfryngau cymdeithasol a'i bostio, edrych dros sillafu a gramadeg ceisiadau am gyllid ac ymatebion i gyllidwyr, ynghyd â chymryd cofnodion cyfarfodydd.

Rhan bwysig o'r rôl yw cydweithio â staff Down to Zero i sicrhau cyfathrebu hwylus a gweinyddu a chymorth prydlon.

Bydd y Cymorth Tîm Digidol yn cynorthwyo staff eraill yn y Tîm, gan eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau o ran darparu gwasanaeth.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Cynorthwyo â gweinyddu, cofnodi a ffeilio ac e-ffeilio'n briodol wybodaeth fonitro a gwerthuso perthnasol a drosglwyddwyd gan aelodau'r tîm ac, yn benodol, y Rheolwr Prosiect.
- Paratoi a chynhyrchu dogfennau monitro a'u ffeilio'n briodol, wedi'u cysylltu â thaenlenni a systemau mewnol.
- Creu deunydd Create at ddibenion gweithgareddau a digwyddiadau marchnata.
- Creu cynnwys ar Eventbrite at ddibenion ymgysylltu.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymgysylltiad er mwyn cefnogi brand Down to Zero.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Prosiect â swyddogaethau gweinyddol.
- Darparu gwasanaeth cyfeillgar, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, i gydweithwyr ar draws y Grŵp, trwy ddelio â gwahanol geisiadau'n gysylltiedig â Down to Zero.
- Cydlynu prosiectau ar gyfer Down to Zero, gan gydweithio â chydweithwyr ar draws y sefydliad, yn cydlynu cyfarfodydd, hyfforddiant ac arolygon.
- Cynorthwyo â phob mater yn gysylltiedig â Down to Zero, fel cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd, trefnu cyfarfodydd, monitro niferoedd ymgysylltu a choladu/ffeilio dogfennaeth a ddarparwyd gan y tîm.
- Cyflenwi'n sylfaenol ar ran y Swyddog Cyfathrebu trwy ddiweddaru'r wefan a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.
- Edrych dros geisiadau am gyllid ac adroddiadau cyllid am gamgymeriadau sillafu a gramadeg neu newidiadau.
- Cynorthwyo Rheolwr y Prosiect â pharatoi dogfennau ar gyfer cyfarfodydd bwrdd Down to Zero.

**Mesurau Perfformiad Allweddol**

- Cyfrannu at brofiad cydweithwyr mewn ffordd gadarnhaol trwy sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni mewn modd cyfeillgar a chymwynasgar.
- Cynnydd mewn ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a chynnwys.
- Sicrhau bod cyngor cywir yn cael ei roi i gydweithwyr ac ymgeiswyr a'u cyfeirio at eraill, lle bo angen.
- Darparu cofnodion cyfarfodydd yn brydlon.

- Cynnal cofnodion cywir, gan gynnwys monitro a gwerthuso prosiectau a chadw at broffesiynoldeb, cyfrinachedd masnachol a'r GDPR.
- Cyfrannu at ddatblygiad Down to Zero a'n brand yn y farchnadle trwy gyflawni eich cyfrifoldebau.

**Manyleb yr Unigolyn – Gofynion Hanfodol**

**Galluoedd Allweddol**

- Sgiliau gweinyddu rhagorol
- Gwybodaeth am strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Meithrin perthnasoedd
- Datrys problemau
- Cydweithredwr a chyfathrebwr da
- Creu cynnwys rhagorol a chyfryngau cymdeithasol rhagorol
- Rheoli amser a phrosiectau
- Deall sut mae'r maes gwaith yn cyd-fynd â nodau corfforaethol ehangach y sefydliad

**Galluoedd Technegol**

- Sgiliau gwrando rhagorol a'r gallu i ryngweithio ag amrywiaeth o gydweithwyr
- Gallu dilyn gweithdrefnau a chyflawni tasgau i safon uchel, gan sicrhau cywirdeb
- Gallu creu cynnwys effeithiol gan ddefnyddio rhaglenni fel Canva, eventbrite a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gwybodaeth am Ddiogelu Data a'i effaith ar weithgareddau.
- Gradd dda o addysg (5 TGAU neu gyfwerth)
- Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, ac ati.
- Gallu defnyddio pob platfform cyfarfod a negeseua rhithwir allweddol yn annibynnol ac yn effeithiol e.e. Teams
- Gallu defnyddio pecynnau allweddol Microsoft Office – Excel, Word, Teams a PowerPoint
- Gallu dod yn hyfedr o ran platfformau / systemau newydd yn gyflym ac yn hyderus, fel y bo angen, er enghraifft i gefnogi cynhyrchion dysgu digidol newydd.

**Manyleb yr Unigolyn – Gofynion Dymunol**

- Dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Gallu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg

**Atodiad 1:**

**EIN GWELEDIGAETH**
Rydym am fod yn rhan o gymunedau hapus, iach a llewyrchus yn y cymoedd, lle mae gan bawb gyfle i fyw'n dda.

**EIN PWRPAS**
Rydym ni yma i ddarparu cartrefi a chefnogaeth wych i'r bobl sy'n rhan o'n cymunedau.

**EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
Mae amrywiaeth yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn rhoi pwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu hyrwyddo ar bob lefel ar draws y sefydliad.

**Ein Gwerthoedd;**

**ANGERDD –** Rydyn ni'n poeni'n angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud

**PARCH** – Rydym yn trin pawb â pharch

**CYFRIFOLDEB** – Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd

**UNIONDEB** – Rydym yn cyflawni ein rolau yn onest ac yn ddidwyll

**RHAGORIAETH** – Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau glas

**Amcanion allweddol:**

• Cefnogi cymunedau gwydn
• Darparu gwasanaethau rhagorol
• Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
• Diogelu ein cynaliadwyedd ariannol
• Buddsoddi yn ein llywodraethu, ein pobl a'n systemau
• Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni nodau a rennir

**Ar draws pob blaenoriaeth y mae:**

- Tegwch a chydraddoldeb
- Gwerth am arian
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol